*Gwella bywydau gyda'n gilydd*

# Gwasanaeth Preswyl Arbenigol i Oedolion ag Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth

## Clynsaer, Sir Gaerfyrddin

Cygnet Social Care



**Wedi'i leoli mewn plasty o'r 1930au sydd wedi'i addasu yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, mae Clynsaer yn wasanaeth preswyl arbenigol ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn sydd ag anableddau dysgu, ymddygiad heriol ac anghenion cymhleth cysylltiedig. Rydyn ni'n darparu cymorth wedi'i deilwra sy'n hyrwyddo annibyniaeth, llesiant a chyfranogiad cymunedol, gan alluogi pob unigolyn i fyw bywyd llawn ac ystyrlon.**

### Bywyd yng Clynsaer

Mae ein dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu preswylwyr i feithrin annibyniaeth, hyder a sgiliau bywyd. Mae gan y cartref ganolfan weithgareddau bwrpasol sydd wedi'i thrawsnewid o hen stablau. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys sesiynau therapi cerdd wythnosol, pobi, celf a chrefft, sesiynau synhwyraidd a thripiau cymunedol, ac mae'r rhain i gyd yn annog ymgysylltu ac yn rhoi hwb i lesiant. Gall preswylwyr hefyd fwynhau'r gerddi hardd a'r mannau awyr agored, gan gynnwys polydwnnel ar y safle lle mae blodau, ffrwythau a llysiau'n cael eu tyfu.

Mae cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith yn helpu unigolion i fagu hyder, datblygu sgiliau ymarferol a chynyddu annibyniaeth. Mae Frank, ein ci cyfeillgar yn rhan bwysig iawn o gymuned Clynsaer. Mae'n gwmni i breswylwyr a staff ac yn rhoi mwynhad mawr i bawb yn y cartref.

Rhywedd Cymysg | 18+ oed | 11 lleoliad

### Y bobl rydyn ni'n eu cefnogi:

- Oedolion dros 18 oed
- Unigolion sydd wedi cael diagnosis sylfaenol o anabledd dysgu neu salwch meddwl yn ogystal ag ymddygiad heriol
- Unigolion sydd wedi cael diagnosis eilaidd o anhwylder personoliaeth neu awtistiaeth
- Unigolion sydd efallai â thrafferthion cyfathrebu
- Unigolion sydd efallai ag anghenion cymhleth cysylltiedig



### Cefnogi Annibyniaeth a Llesiant

Anogir preswylwyr i ddilyn eu diddordebau, i chwarae rhan weithredol ym mywyd bob dydd y cartref a gweithio tuag at nodau personol sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

Drwy gynnal tripiau cymunedol, trefnu profiad gwaith a threfnu gweithgareddau wedi eu teilwra, rydyn ni'n cefnogi unigolion i greu cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau newydd a gwella eu llesiant. Mae mynediad at weithwyr gofal iechyd cymunedol proffesiynol, gan gynnwys Therapi Galwedigaethol, Therapi Iaith a Lleferydd, Seicoleg a Seiciatreg, yn helpu i sicrhau bod cymorth yn cael ei deilwra i anghenion unigryw pob unigolyn.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod mor bwysig yw cynnal perthnasoedd cryf â theulu a ffrindiau a chefnogi unigolion i gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid drwy gyswllt rheolaidd, cynnal ymweliadau â'r cartref a rhoi cyfle i breswylwyr fynd adref lle bo hynny'n briodol.







Yng nghartref Clynsaer, rydyn ni'n cefnogi pobl i feithrin yr hyder, yr annibyniaeth a'r sgiliau bywyd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau ystyrlon a gwerth chweil drwy roi cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cynnal gweithgareddau therapiwtig a chynnig cyfleoedd ystyrlon gartref ac yn y gymuned.

**Cyfleoedd profiad gwaith i** fagu hyder ac annibyniaeth

**Lleoliad gwledig heddychlon** sy'n berffaith i unrhyw un sy'n mwynhau bod yn yr awyr agored a byw bywyd actif

**Ystafell bobi, ystafell synhwyraidd,** ystafell grefftau a mannau cymdeithasol

**Sesiynau therapi cerdd** wythnosol

**Tripiau rheolaidd yn y gymuned a** thripiau i lan y môr

**Gerddi a pholydwnnel ar gyfer** tyfu ffrwythau, llysiau a blodau



## Cydnabyddiaeth gan y Bobl Bwysicaf

Roedd tîm Clynsaer yn falch iawn o dderbyn Gwobr Dewis y Defnyddiwr am Ofal Iechyd yng Ngwobrau Cyflawniad Staff Cygnet 2026. Y bobl rydyn ni'n eu cefnogi wnaeth bleidleisio amdanom ni, ac mae'r gydnabyddiaeth arbennig hon yn adlewyrchu'r berthynas gref mae ein staff yn ei meithrin â phreswylwyr a'u hymrwymiad i ddarparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r wobr yn cael ei dewis gan y rhai sy'n adnabod y gwasanaeth orau, ac mae'n brawf o ymroddiad, caredigrwydd ac effaith gadarnhaol y tîm, sy'n creu amgylchedd cefnogol lle gall pobl ddatblygu hyder, annibyniaeth ac ansawdd bywyd.




**Social Care Referrals**

I gael rhagor o wybodaeth neu i atgyfeirio, cysylltwch â'ch Rheolwr Cysylltiadau Busnes rhanbarthol neu anfonwch e-bost at: **sc.referrals@cygnethealth.co.uk**

1. Cynhelir asesiad bwrdd gwaith i adolygu addasrwydd y lleoliad ar gyfer yr unigolion sy'n cael eu cyfeirio atom
2. Os oes lle addas ar gael, rydyn ni'n trefnu bod ein tîm arbenigol yn cynnal asesiad
3. Rhoddir adborth ynghylch a yw ein gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn
4. Yna caiff adroddiad manwl yn cynnig lle ei gynhyrchu a fydd yn cynnwys cynlluniau gofal a gwybodaeth am gyllid
5. Ar ôl cadarnhau lle, datblygir cynlluniau pontio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, a byddwn yn cytuno ar ddyddiad i dderbyn yr unigolyn i'r cartref

## Ble rydyn ni?

**Clynsaer**
Cynghordy, Llandovery,
Carmarthenshire SA20 0LP

**Rhif ffôn**
01550 750 224




CYG-1762 | Date of Preparation: 10/08/26